

Richard ac Adam i serennu yn y Gyngerdd Pops Nadolig yn y Rhyl



Mae enwau'r artistiaid fyd yn cymryd rhan yn y Cyngerrdd Pops Nadolig yn y Rhyl wedi cael ei chyhoeddi.

Fe ymddangosodd y brodyr Richard ac Adam am y tro cyntaf ar sgriniau teledu'r genedl ar raglen Britain's Got Talent, gan gyrraedd y rownd derfynol yn 2013 yn perfformio eu fersiwn croesi clasurol o 'The Impossible Dream' Sefydlodd y sioe'r ddau fel cantorion opera.

Maent yn canmol eu nain fel eu dylanwad mwyaf. Pan oeddent yn ifanc, chwaraeodd gerddoriaeth gan Caruso, Mario Lanza a The Three Tenors a bu'n eu hannog i ganu ar hyd y ffordd, gan feithrin eu hyder a'u hannog i ddilyn gyrfa mewn opera. Fe wnaethon nhw ddysgu eu crefft drwy berfformio mewn gigs byw a pherfformio gyda Chymdeithas Operatig Penbedw. Pan enillon nhw gystadleuaeth talent leol, daeth y cynigion i mewn a dechreuon nhw berfformio'n broffesiynol cyn ennill Britain's Got Talent.

Wrth iddynt ddechrau pennod newydd, gyda'r apêl fasnachol gynyddol o genres clasurol a theatr gerddorol, mae Richard ac Adam yn canolbwyntio ar ganeuon mwy cyfoes.

Bydd y cyngerdd yn cynnwys ymddangosiad gan y gantores Georgia Holland a ddathlodd ei 20 mlwyddiant fel lleisydd eleni. Mae hi wedi perfformio mewn lleoliadau ledled y wlad, o leoliadau

personol i theatrau mawr fel Tŷ Opera Manceinion Neuadd Bridgewater. Mae ei llais llyfn yn cynnig dehongliad newydd i ganu Jazz/siglen a chlasuron pop.

Mae hi'n perfformio fel unawdydd a chyda'i phedwarawd jas. Mae Georgia hefyd yn leisydd gwadd rheolaidd gydag amryw o 'fandiau mawr' Manceinion yn ogystal â pherfformio gyda'r band soul The Goodfellas a band Ffync 'y Funkals'.

Hefyd yn ymddangos bydd Côr Ysgol Emmanuel a band pres ieuenctid Sir Ddinbych.

Bydd y cyngerdd blynyddol, a drefnir gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Chyngor Tref y Rhyl, yn cael ei lwyfannu yn Eglwys St Thomas, y Rhyl ddydd Sul, 9ain Rhagfyr o 5pm.

Dywedodd y Cyngorydd Hugh Evans OBE, Arweinydd Sir Ddinbych: "Rydym yn falch iawn o fod wedi sicrhau'r fath artistiaid ac mae'r digwyddiad wedi'i hen sefydlu fel ffordd o roi hwb i ddathliadau'r Nadolig. Byddem yn annog pobl i fynd i ysbryd y Nadolig a sicrhau eu tocyn am ddim i'r digwyddiad pwysig hwn".

Dywedodd Maer Tref y Rhyl, y Cyngorydd Win Mullen James: "Mae Cyngor Tref y Rhyl yn falch o gefnogi'r cyngerdd sy'n un o uchafbwyntiau calendr yr ŵyl. Mae bob amser yn ddigwyddiad sy'n cael ei chefnogi'n dda ac rydym yn edrych ymlaen at noson lwyddiannus arall."

Mae tocynnau ar gyfer y digwyddiad am ddim a byddant ar gael o Ganolfan Groeso'r Rhyl ar ddydd Mercher 14 Tachwedd. I gadw eich tocynnau ffoniwch 01745 355068.